

MHA
Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

# Cymdeithas Tai Sir Fynwy


## Cynllun Corfforaethol 2025

# Cynnwys




3. **Cyflwyniad**
4. Tipyn **amdanom ni**
5. Ein **Pobl**
6. Ein **Lleoedd**
7. Ein **Ffyniant**
8. Ein **Planed**
9. **Cyslltwch** â ni

# Cyflwyniad



Tony Deakin - Cadeirydd y Grŵp



John Keegan - Prif Weithredwr

**Rydym yn llawn cyffro o fedru rhannu Cynllun Corfforaethol CTSF ar gyfer 2025/26, gan amlinellu ein nodau strategol a'n cynlluniau. Mae'r cynllun hwn yn gweithredu fel ein map tuag at lwyddiant, gan lywio'n gweithredoedd i sicrhau twf, gwarchodaeth amgylcheddol, a chyflenwad gwasanaeth rhagorol i'n tenantiaid a'n cymunedau.**


Mae ein cynlluniau twf yn canolbwyntio ar reoli 5000 o dai erbyn 2030. Hefyd, datblygu model allyriadau carbon deuocsid a chyflwyno rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru 2. Byddwn yn ymgymryd ag ail-frandio mewn ymgynghoriad â'n rhanddeiliaid, i gyd-fynd gyda'n strategaeth twf a'n gweledigaeth. Bydd yr ail-frandio yma'n adlewyrchu ein hymrwymiad i fod yn ddatblygwr, partner a chyflogwr sy'n ddewis i bobl yn ein rhanbarth.

Rydym yn awyddus i greu perthnasau cryfach a gwella'r effaith gadarnhaol yr ydym yn ei chael ar ein cymunedau, ac mae eich cefnogaeth ddiwyro'n amhrisiadwy wrth i ni greu dyfodol mwy llewyrchus a chynaliadwy.

# Tipyn **amdanom ni**

Rydyn ni'n rheoli 3,800 o gartrefi..

Rydyn ni'n cyflogi 236 aelod o staff.




***Darparu cartrefi o ansawdd mewn cymunedau cynaliadwy ble mae pobl yn falch o gael byw ac yn cael eu cefnogi i ffynnu.***

## Ein Gwerthoedd

AGORED

TEG

CYFLAWNI

HYBLYG

## Mae'r cynllun wedi ei seilio ar bedwar piler allweddol:

POBL

LLEOEDD

FFYNIANT

PLANED

# Ein Pobl



**Trwy hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant, talent amrywiol a byw'n iach, byddwn yn cefnogi pobl i ffynnu a chyflawni eu gwir botensial.**

## Heriau allweddol a chyfleodd Cynlluniau Allweddol:

**Yn CTSF, mae bodlonrwydd yn allweddol wrth yrru'n llwyddiant.** Rydym yn credu bod tenantiaid hapus a staff hapus yn hanfodol ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau. Trwy feithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol, rydym yn sicrhau bod ein tenantiaid yn teimlo ein bod yn eu gwerthfawrogi ac yn gofalu amdanynt, sydd yn ei dro yn gwella'u profiadau preswylio. Yn yr un ffordd, rydym yn rhoi blaenoriaeth i les a thwf proffesiynol ein cydweithwyr, gan gydnabod fod gweithlu brwdfrydig a bodlon yn hanfodol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau rhagorol. Rydym hefyd yn bwriadu recriwtio prentisiaid a hyfforddeion eleni.

Fel rhan o'n hymrwymiad at feithrin amgylchedd cynhwysol a theg, rydym wedi'n cyffroi o fedru cyflwyno ein strategaeth CACh 3 blynedd nesaf. Gan adeiladu ar seiliau cadarn, bydd y strategaeth hon yn gyrru gwelliannau arwyddocaol i sicrhau bod unigolion o bob cefndir yn cael mynediad cyfartal i'n gwasanaethau rhagorol a'u bod yn teimlo wedi eu grymuso i fyw bywydau'n rhydd o wahaniaethu.

## Ffocws

**Llwyddo i gael 90% o fodlonrwydd cwsmeriaid gyda'n gwasanaethau**

**Datblygu cynlluniau gwella ar gyfer y ddau faes isaf o fodlonrwydd**


**Sicrhau bod 95% o denantiaethau'n cael eu cynnal y tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf**

**Llwyddo i gael 85% o fodlonrwydd ymhlith staff**

## Mesur Llwyddiant...

- Mwy o fodlonrwydd o fewn ein grwpiau gwarchodedig
- Cyrraedd neu'n mynd y tu hwnt i 90% o fodlonrwydd ymhlith tenantiaid
- Cyrraedd neu'n mynd y tu hwnt i 85% o fodlonrwydd ymhlith staff

# Ein **Lleoedd**



**Rydym yn ymroddedig at gyflenwi cartref fforddiadwy, diogel o ansawdd uchel, mewn lleoedd bywiog, gan gydweithio gyda phartneriaid i greu cymunedau ffyniannus.**



## Heriau a chyfleodd allweddol

**Ein nod yw cryfhau ein heffaith trwy gofleidio arloesi a thechnolegau newydd i wella'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau.** Mae gennym raglen gref iawn o ddatblygiadau tai newydd ac, yn ystod y flwyddyn nesaf, ein bwriad yw ehangu ein stoc o gartrefi trwy brynu 30 o gartrefi newydd, a datblygu 15 arall, a hefyd sicrhau tir i ychwanegu 81 cartref pellach i'n ffrwd gyfredol - a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at ein huchelgais i dyfu.

Rydym yn ymroddedig at wella diogelwch a lles ein tenantiaid, ac rydym yn parhau i drafod a mynd i'r afael â thamprwydd, llwydni a pheryglon neu bryderon iechyd eraill mewn ffordd ragweithiol. Mae'r ddeddfwriaeth Digartrefedd newydd yn mynd i'r afael mewn ffordd ragweithiol ag atal ar adeg gynnar, gan roi blaenoriaeth i'r mwyaf bregus yn ein cymunedau. O ganlyniad, byddwn yn adolygu'r Cynllun Dyraniadau ac y cefnogi gweithredu'r Mesur newydd hwn. Felly hefyd, gyda newidiadau i'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau.

## Ffocws

- **Cynhyrchu model allyriadau CO2 eiddo**
- **Cyflwyno rhaglen cydymffurfiad SATC2**
- **Gwerthuso 3 cyfle ar gyfer adfywio mewn canol trefi**
- **Ymuno â Chofrestr Tai Cyffredin Casnewydd a Thorfaen**
- **95% of new tenancies sustained beyond year 1**

### Mesur Llwyddiant...

- Gwelliannau mewn iechyd a lles
- Cydymffurfiad â gofynion statudol
- Cynyddu ein stoc tai
- Gwella bodlonrwydd tenantiaid



# Ein Ffyniant

**Gan fuddsoddi mewn twf, byddwn yn parhau i fod yn fusnes cryf a gwydn, gan hyrwyddo caffael teg a lleol.**

## Heriau a chyfleodd allweddol

**Rydym yn ymroddedig at wella'r cynnig i denantiaid, fel bod gan bawb gyfle a mwy o lais yn sut maen nhw'n derbyn gwasanaethau.** Hefyd, gwella ein gwerth cymdeithasol a'n heffaith, cynnal lefelau isel o ôl-ddyledion rhent, cyflawni cyfraddau casglu incwm uchel, a symud ein Strategaeth Ddigidol ymlaen i gynyddu'r defnydd o Ap MyMHA tenantiaid.

Mae sefydlogrwydd ariannol yn amcan allweddol, gyda nodau i gynnal sgôr credyd cryf a chyflenwi gweddill dros ben sy'n iach. Byddwn yn gweithredu Polisi a Safon Rhent newydd Llywodraeth Cymru, yn cyflwyno Strategaeth newydd Gwerth am Arian, a sicrhau cydymffurfiad â'r Safonau Rheoleiddio newydd a'r Ddeddf Caffael. Hefyd, ein nod yw cyflawni'r achrediad 'Hanfodion Seibr' a gwella ein Cynlluniau Ymateb Seibr fel y gallwn ymateb yn effeithiol i fygythiadau seibr yn gyflym.

## Ffocws

- **Cydymffurfiad â Safonau Perfformiad Rheoleiddiol**
- **Gwella ymwybyddiaeth diogelwch seibr**
- **Cynnal ôl-ddyledion rhent ar fwyafswm o 3%**
- **Cyflawni 99% o rent yn cael ei gasglu**

## Mesur Llwyddiant...

- Cyflawni Cydymffurfiad Rheoleiddiol
- Cadw sefyllfa ariannol gref



# Ein **Planed**

**Fel stiwardiaid hyblyg o'r amgylchedd, byddwn yn parhau i adeiladu cartrefi cynaliadwy ac ecogyfeillgar, gan hyrwyddo gwytnwch ecolegol a chyfrannu at dargedau sero carbon cenedlaethol.**

## Heriau a chyfleodd allweddol

**Mae CTSF wedi ymrwymo'n ddwfn i gynaliadwyedd, gan weithio tuag at ddyfodol gwyrddach trwy gyflwyno technolegau arloesol a chynhwysfawr.** Ein prif nod yw cynyddu cydymffurfiad a Safonau Adrodd Cynaliadwy ACLl 20%, gan sicrhau bod ein gweithredoedd yn cyd-fynd ag arferion gorau byd-eang ar gyfer meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol. Hefyd, rydym yn ymrwymedig at ddatblygu Strategaeth Lle Gwyrdd gwydn, 10 mlynedd o hyd, a fydd yn canolbwyntio ar ehangu a gwarchod mannau gwyrdd i hyrwyddo bioamrywiaeth a gwella lles cymunedol.

I hybu ein hymdrechion cynaliadwyedd, ein nod yw cyrraedd targed uchelgeisiol o leihau gwastraff sy'n mynd i'w gladdu i ddim ond 0.5%. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy arferion rheolaeth gwastraff llym a gweithredu technolegau uwch lleihau deunydd ailgylchu a gwastraff. Mae cynnal archwiliadau rheolaidd o gontractwyr yn rhan hanfodol arall o'n strategaeth, gan y bydd yn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cadw at ddeddfwriaeth berthnasol ac yn cynnal y safonau uchaf o arferion cynaliadwy. Trwy feithrin diwylliant o atebolrwydd a gwelliant parhaus, mae CTSF yn ymrwymedig at gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd a gosod meincnod ar gyfer cynaliadwyedd yn ein diwydiant.

## Ffocws

**Cyflwyno Cam 2 y Llwybr Sero Net Ynni Gweithredol**

**Cyflawni 100% o sgôr 'A' effeithlonrwydd ynni ar adeiladau newydd**

**Gosod paneli ffotofoltaidd ar 300 o gartrefi**

**Cynnal 1,000 o Asesiadau Stoc Gyfan i wella effeithlonrwydd ynni**

### Mesur Llwyddiant...

- Bodloni gofynion deddfwriaethol amgylcheddol
- Gwella iechyd a lles
- Gwella sefydlogrwydd ariannol ein tenantiaid

# Cysylltu â Ni



0345 677 2277

customerservices@monmouthshirehousing.co.uk

www.monmouthshirehousing.co.uk

Monmouthshire Housing Association
Nant-Y-Pia House, Mamhilad Technology Park
Mamhilad, Monmouthshire, NP4 0JJ

facebook.com/Monmouthshire.Housing

x.com/mon_housing